**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant, Cyfiawnder Cymdeithasol, Trefnydd a'r Prif Chwip

Dawn Bowden AS
Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol

18 Gorffennaf 2024

**Lleihau troseddoli plant ac oedolion ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yng Nghymru: Pecyn Cymorth Ymarferol i Weithwyr Proffesiynol a chyllid ar gyfer Cartref Plant Diogel Hillside**

Annwyl Jane a Dawn,

Fel y gwyddoch, rydym wrthi yn casglu tystiolaeth fel rhan o'n hymchwiliad i 'blant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon'. Mae'r ymchwiliad yn canolbwyntio ar blant sydd ar goll a phlant a phobl ifanc sydd wedi'u troseddoli. Ceir rhagor o fanylion am ein hymchwiliad, gan gynnwys ei gylch gorchwyl, ar ein tudalennau gwe.

## Pecyn cymorth Pobl Goll

Ddydd Iau 27 Mehefin roeddwn yn bresennol mewn cyfarfod o'r Grŵp Llywio Methu'r Pwynt, a gynhaliwyd gan Wasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru. Yn ystod y cyfarfod buom yn siarad am y Pecyn cymorth Pobl Goll, a ariannwyd gan y 4Cs, a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru, ac a ddatblygwyd ar y cyd â Llamau a Claire Sands yr arbenigwraig ar ddad-droseddoli. Mae'r pecyn cymorth yn cynnig dulliau ymarferol, adnoddau ac enghreifftiau o arferion da i weithwyr proffesiynol amlasiantaethol i leihau'r achosion o droseddoli plant ac oedolion ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Clywais gan berson ifanc mewn gofal, ei gofalwr maeth a gweithwyr proffesiynol gwahanol o gwmpas y bwrdd, fod y pecyn cymorth yn adnodd rhagorol.

Roedd yn gadarnhaol iawn clywed bod Llywodraeth Cymru wedi cefnogi datblygiad y pecyn cymorth. Ond cefais fy synnu o glywed pryderon gan y Grŵp Llywio bod dyfodol y pecyn cymorth yn ansicr

oherwydd nad yw Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu swm cymharol fach o gyllid blynyddol i'w gynnal yn y dyfodol.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich asesiad o'r hyn y mae'r pecyn cymorth wedi'i gyflawni hyd yma, ac amlinelliad o ba gynlluniau, os o gwbl, sydd gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid rheolaidd yn y dyfodol.

## Cyllid ar gyfer Cartref Plant Diogel Hillside

Ddydd Mercher 10 Gorffennaf, gwnaethom ymweld â Chartref Plant Diogel Hillside yng Nghastell-nedd. Fel y gwyddoch, mae'r cartref plant yn cael ei ariannu'n gyffredinol gan awdurdodau lleol (yn achos plant a leolir yn y cartref o dan orchymyn llety diogel) a chan y Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa (yn achos plant yn y ddalfa neu sydd wedi'u dedfrydu i gyfnod cadw ieuenctid). Ar hyn o bryd, mae rhagor o blant wedi'u derbyn i'r Cartref ar sail llesiant gan yr awdurdod lleol na chan y Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa.

Clywsom fod Llywodraeth y DU wedi gwneud buddsoddiadau sylweddol i gynnal capasiti ac ehangu'r ddarpariaeth mewn cartrefi plant diogel yn Lloegr. Eglurodd y staff fod cartrefi plant diogel yn Lloegr yn cael darpariaeth wedi'i chomisiynu gan GIG Lloegr a'r Adran Addysg yn ogystal ag unrhyw ddarpariaeth a ddarperir gan y cartref diogel ei hun i ddarparu gwasanaethau iechyd ac addysg i blant yn y Cartref. Dywedwyd wrthym nad yw Hillside yn cael darpariaeth ychwanegol gyfatebol, a bod yn rhaid iddo dalu am wasanaethau iechyd gan GIG Cymru a gwasanaethau addysg gan yr awdurdod lleol allan o'i gyllideb ei hun. Dywedwyd wrthym mai goblygiadau hyn yw bod rhagor o adnoddau ariannol ar gael fesul plentyn ar gyfer cartrefi plant diogel yn Lloegr nag sydd ar gyfer plant yn Hillside.

Rydym yn pryderu ei bod yn ymddangos bod plant bregus sy'n mynychu Hillside, boed wedi'u lleoli gan awdurdod lleol neu gan y Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa, o dan anfantais ariannol o gymharu â phlant sy'n cael eu lleoli mewn cartrefi plant diogel yn Lloegr.

A oes modd i chi:

- egluro'r trefniadau ariannu ar gyfer Cartref Plant Diogel Hillside (arian refeniw ac arian cyfalaf), gan gynnwys mewn perthynas â chyllid ar gyfer gwasanaethau addysg a gwasanaethau iechyd ar gyfer plant yn y Cartref;
- nodi'r darpariaethau deddfwriaethol perthnasol y mae'r trefniadau ariannu hynny'n tarddu ohonynt; a
- nodi eich dealltwriaeth o'r gwahaniaethau yn y prosesau comisiynu ac ariannu rhwng Cartref Plant Diogel Hillside a chartrefi cyfatebol yn Lloegr, a'r rhesymau dros y gwahaniaeth hwnnw?

Byddwn yn gwerthfawrogi cael eich ymateb i'r llythyr hwn erbyn dydd Gwener 30 Awst 2024 fan bellaf.

Yn gywir,

Buffy Williams AS,
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.